# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
# 12 MAWRTH 2020

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Iau, 12 Mawrth 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Paul Johnson, Richard Jones, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Andy Williams ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Haydn Bateman

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg), y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet dros Reolaeth Corfforaethol ac Asedau), y Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Cabinet dros Gyllid), Prif Weithredwr a Phrif Swyddog (Llywodraethiant)

Jay Davies (Ymgynghorydd Perfformiad Strategol) – ar gyfer cofnod rhif 90
Dave Ledsham (Rheolwr Cyllid) – ar gyfer cofnod rhif 93

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 85. EITEM FRYS

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddai diweddariad ar ymateb y Cyngor i sefyllfa Coronafeirws yn cael ei gyflwyno yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi penderfyniad y Cadeirydd i dderbyn eitem frys ychwanegol i ddarparu manylion am ymateb y Cyngor i oblygiadau Coronafeirws/COVID-19 i Sir y Fflint.

## 86. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

## 87. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2020, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Cunningham a Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 88. OLRHAIN GWEITHREDU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai gweithdai ar Gynllun y Cyngor a Bid Twf Gogledd Cymru yn cael eu cynnal ar ddiwedd Ebrill a dechrau Mai, yn y drefn honno. Byddai'r seminar a awgrymwyd ar ariannu cyfalaf yn cael ei gynnwys yn y gweithdy Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a drefnwyd ar gyfer mis Mai.

Dywedodd y Cynghorydd Heesom nad oedd y pwyntiau roedd wedi'u codi ar gysylltiadau gyda'r Bid Twf a materion cysylltiedig yn ymwneud â Phont Dyfrdwy a'r Llwybr Coch wedi cael eu cydnabod. Wrth ymateb i'w bryderon ynghylch y Cais Twf, ategodd y Prif Weithredwr na fyddai unrhyw benderfyniadau rhanbarthol yn cael eu gwneud nes bod y Penawdau Telerau terfynol wedi'u cytuno a dywedodd fod papurau agenda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd. Byddai cyswllt at yr wybodaeth honno yn cael ei rannu ymhlith yr Aelodau a byddai gweithdy'r Bid Twf yn gyfle i Aelodau leisio unrhyw ymholiadau gyda Chyfarwyddwr Rhanbarthol newydd Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru.

Roedd y cyfarfod gyda chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ei gohirio am y tro tra bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Arweinydd a Phrif Weithredwr newydd.

O ran y diweddariad chwarterol ar Gyflogaeth a'r Gweithlu, cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at yr ymateb i'w gwestiwn ar gyfanswm y dyddiau a gollwyd yn ystod y cyfnod a dywedodd ei fod hefyd wedi gofyn am yr effaith ar darged canlyniadau'r flwyddyn. Byddai swyddogion yn paratoi ymateb pellach.

Cafodd y cynnig ei wneud gan y Cynghorydd Johnson a'i eilio gan y Cynghorydd Cunningham.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed.

## 89. RHAGLEN WAITH Y DYFODOL

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd Raglen Waith y Dyfodol er mwyn i'r Pwyllgor ei hystyried.

Ar fater y diweddariad o'r gwerthusiadau ym mis Mai, ailadroddodd y Prif Weithredwr yr ymrwymiad y byddai'n ofynnol i Brif Swyddogion fynychu os nad oedd eu portffolios wedi cyrraedd y raddfa gyflawni 90%.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones a ddylai diweddariad ar sefyllfa Coronafeirws gael ei gynnwys yn rheolaidd ar Raglen Waith y Dyfodol. Byddai'r eitem yn cael ei thrafod yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Johnson a'u heilio gan y Cynghorydd Cunningham.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi Rhaglen Waith y Dyfodol; a

(b) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio Rhaglen Waith y Dyfodol rhwng cyfarfodydd, fel y bo'r angen.

## 90. FFRAMWAITH RHEOLI RISG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar ddatblygu fframwaith rheoli risg mewnol gwell yn cynnwys dynodi risgiau a goruchwylio risgiau ariannol, meysydd a oedd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Ymgynghorydd Perfformiad Strategol gyflwyniad ar y canlynol:

- Adolygiad o'r Fframwaith Risg
- Categorïau risg
- Mathau o risg
- Rheoli Risg yn Weithredol
- Risgiau Ariannol 2020/21
    - Cyflog (taliadau blynyddol)
    - Lleoliadau y tu allan i'r Sir
    - Cludiant Ysgol ôl-16
    - Cyllidebau Diffygiol Ysgolion
    - Cyllideb y flwyddyn hon
    - Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Y nod oedd cyflwyno dull mwy effeithiol, systematig i adnabod risgiau a thynnu sylw atynt, sef dull arfer gorau. Roedd y broses yn golygu ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol gyda thîm y Prif Swyddog a swyddogion perfformiad arweiniol y portffolio, ynghyd â'r tîm Archwilio Mewnol mewn rôl ymgynghorol. Fel rhan o'r cyflwyniad, rhoddwyd trosolwg o'r pedwar prif risg 'agored' y gellid eu hadrodd ar y cam hwn. Er enghraifft, ar Gyflog (taliadau blynyddol) lle nad oedd gan y Cyngor lawer o ddylanwad ar y sefyllfa genedlaethol ond gallai adeiladu hyblygrwydd digonol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i leihau'r effaith. Er bod difrifoldeb yr effaith yn sylweddol, roedd y tebygolrwydd yn isel oherwydd y mesurau lliniaru hynny. Er bod gosod y gyllideb gyffredinol yn risg agored, roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a rheoli'r gyllideb y flwyddyn hon yn risgiau parhaus o hyd.

Mewn ymateb i ymholiad y Cynghorydd Jones ynglŷn â'r risg i ddiwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol /Anghenion Dysgu Arbennig (ADY/ADA), dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith yn mynd rhagddo o hyd i asesu'r galw yn dilyn oedi yn yr arian grant cenedlaethol.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Johnson ar y categori risg ar gyfer iechyd a diogelwch, dywedodd y Prif Weithredwr fod hyn yn gymwys i Leoliadau y tu allan i'r Sir oherwydd y cymhlethdodau cysylltiedig.

Siaradodd y Prif Weithredwr am y pwysau sylweddol oherwydd costau yn deillio o gyllidebau diffygiol yr ysgolion a oedd ar hyn o bryd wedi cael sgôr risg 'du' gan nad oedd mesurau ariannol wedi eu cymryd hyd yma.

Fel Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Addysg a hefyd llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Addysg, disgrifiodd y Cynghorydd ddiffygion yng nghyllidebau ysgolion fel canlyniad y cyfnod o lymder ac roedd yn destun pryder mawr ar draws Cymru.  Yn Sir y Fflint, roedd swyddogion yn gweithio'n agos gydag ysgolion mewn sefyllfa o ddiffyg trwyddedig ac roedd yn croesawu cynlluniau gan Lywodraeth Cymru i newid trefniadau ariannu'r Grant Amddifadedd Disgyblion.

Ar fater dyrannu risgiau ar draws pwyllgorau, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i gytuno ar risgiau brys fel sail ar gyfer rhaglennu gwaith gweithredol. Awgrymodd y dylid adrodd ar statws y prif risgiau agored gerbron y Pwyllgor hwn ym misoedd Ebrill, Mai a Mehefin, ac o fis Gorffennaf ymlaen y dylai'r adroddiadau Monitro Cyllidebau Refeniw gynnwys adran yn rhoi diweddariad ar bob un.

Awgrymodd y Cynghorydd Jones y dylid rhoi statws coch i'r holl risgiau iechyd a diogelwch, yn benodol Lleoliadau y tu allan i'r Sir lle'r oedd hyn yn brif risg. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y sgôr risg cyffredinol yn adlewyrchu statws presennol pob un o'r enghreifftiau byw hynny ac y byddai'n newid wrth i fesurau lliniaru gael eu cymryd yn y dyfodol, er enghraifft ar Gludiant Ysgol ôl-16 lle gallai trafodaethau cyfredol ar rannu costau cymesur leihau'r risg y flwyddyn hon yn sylweddol. Mater i'r Pwyllgor oedd penderfynu a oedd y mesurau lliniaru yn ddigonol.

Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'r ddogfen fframwaith risg yn dangos statws newidiol y risg cyn ac ar ôl y mesurau lliniaru.

Ar fater cyllidebau diffygiol ysgolion, dywedodd y Cynghorydd Jones y dylai'r Cyngor ofyn i Lywodraeth Cymru gefnogi ysgolion sydd mewn sefyllfa anghynaladwy er gwaethaf yr holl gamau a gymerwyd i leihau hyn. Siaradodd y Cynghorydd Roberts am yr heriau ariannol a oedd yn wynebu ysgolion a'r risgiau allanol i ddisgyblion a oedd yn deillio o waharddiadau. Mewn ymateb i sylwadau ar yr angen i ddarparu ar gyfer y risg rheoleiddiol, dywedodd y Prif Weithredwr fod hyn yn gymwys i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig lle'r oedd y risg yn y dyfodol o fod mewn sefyllfa i bennu cyllideb wedi'i mantoli yn risg rheoleiddiol ac yn risg i enw da.

Diolchodd y Cynghorydd Heesom i'r swyddogion am yr adroddiad a oedd hefyd yn cynnwys cysylltiadau cadarnhaol gyda Chynllun y Cyngor a drafodwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol.

Siaradodd y Cynghorydd Jones am yr angen i gyflwyno achos i Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i Leoliadau y tu allan i'r Sir a chyllidebau diffygiol ysgolion. Esboniwyd bod y rhain ymhlith nifer o faterion yn ymwneud â phwysau cyllidebol y cafodd sylwadau eu cyflwyno amdanynt i Lywodraeth Cymru.

Cafodd yr argymhellion, a gafodd eu diwygio i adlewyrchu'r drafodaeth, eu cynnig gan y Cynghorydd Heesom a'u heilio gan y Cynghorydd Cunningham.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cefnogi'r gwaith ar y fframwaith rheoli risg a dynodi risgiau i bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn dilyn cyflwyniad gerbron y Pwyllgor; a

(b) Bod adroddiadau cynnydd misol ar y prif 'risgiau agored' yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfodydd y Pwyllgor ym misoedd Ebrill, Mai a Mehefin.

## 91. SETLIAD TERFYNOL LLYWODRAETH LEOL 2020/21

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar y Setliad Terfynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r goblygiadau i lywodraeth leol a Sir y Fflint.

Fel y nodwyd yn y neges e-bost ddiweddar at Aelodau'r Pwyllgor, nid oedd unrhyw newid arwyddocaol yn y Setliad Terfynol ers y cam dros dro ac felly nid oedd unrhyw oblygiadau i'r gyllideb nac unrhyw risgiau i grantiau penodol. Er gwaethaf y sylwadau a wnaed, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwrthod y cais am y 'arian gwaelodol' ychwanegol ar y sail bod y cynghorau wedi derbyn Setliad gwell.

Ar y pwynt olaf, cadarnhaodd y Cynghorydd Roberts fod achos cadarn wedi'i gyflwyno drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r diweddariad.

## 92. CORONAFEIRWS (COVID-19)

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar yr ymateb lleol i sefyllfa Coronafeirws. Roedd hwn yn fater byw ar raddfa sylweddol iawn ac ni fyddai'n bosibl gwneud penderfyniad lleol nes y byddai arweiniad swyddogol pellach yn cael ei roi. Roedd disgwyl y byddai Llywodraeth y DU yn symud o'r cam 'Cyfyngu' i'r cam 'Oedi' yn dilyn cyfarfod brys o bwyllgor COBRA yn ddiweddarach yn y dydd. Er bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd gan asiantaethau'r llywodraeth ac Iechyd Cyhoeddus, byddai'r ail gam hwn yng nghynllun y Llywodraeth yn helpu i lywio penderfyniadau rhanbarthol a lleol ar fesurau ataliol i arafu lledaeniad y feirws.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg ar y trefniadau rhanbarthol a lleol, gan gynnwys cynllunio er mwyn sicrhau parhad busnesau lle'r oedd gwaith wedi'i wneud yn ystod yr wythnosau diwethaf er mwyn adnabod meysydd risg allweddol ac ymateb iddynt. Dywedodd fod y Cyngor wedi paratoi i'r graddau a oedd yn bosibl, o ystyried y sefyllfa ansicr, a bod cydlynu gwybodaeth gan wahanol asiantaethau'r llywodraeth yn her sylweddol er mwyn llywio'r penderfyniadau cywir ar yr adeg cywir.

Fel yn achos gweithwyr, dylai Aelodau ag unrhyw bryderon iechyd gael eu hannog i gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd os oeddynt yn dymuno derbyn cyngor gan yr adran Iechyd Galwedigaethol. Byddai neges e-bost yn cael ei hanfon at yr holl Aelodau cyn gynted â phosibl unwaith y byddai rhagor o wybodaeth ar gael.

Wrth ddiolch i'r Prif Weithredwr am y diweddariad, gwnaeth y Cynghorydd Jones gydnabod y gwaith oedd yn cael ei wneud y tu ôl i'r llenni a dywedodd y dylid cyflwyno achos am gyfraniad o'r £360m ychwanegol a ddyrannwyd i Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Prif Weithredwr fod trafodaethau yn cael eu cynnal yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru a bod angen ystyried grwpiau eraill fel mudiadau gwirfoddol.

Siaradodd y Cynghorydd Roberts am yr hyder oedd ganddo yn Nhîm y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog i ymateb i'r sefyllfa. Gofynnodd am gymorth yr aelodau i barchu cyfrinachedd cyfathrebiadau sensitif.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Diolch i Dîm y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog am eu gwaith i gynllunio ar gyfer effaith Coronafeirws (COVID-19) yn Sir y Fflint.

## 93. MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF 2019/20 (MIS 10)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid adroddiad ar y sefyllfa o ran monitro'r gyllideb gyfalaf ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ar Fis 10 cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet. Roedd hwn yn adlewyrchu sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol os byddai pethau'n aros yr un fath.

Roedd y diffyg gweithredol o £1.625m yn symudiad cadarnhaol o £0.041m o'i gymharu â'r mis blaenorol. Roedd y mesurau a gyflwynwyd i liniaru effaith gyffredinol y gorwariant rhagamcanol wedi cael effaith arwyddocaol a byddai'r gwaith hwn yn parhau gyda meysydd penodol yn cael eu hadolygu yn dactegol fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roedd hyn yn cynnwys arian ychwanegol ar gyfer Parc Adfer ac roedd y mater hwn cael sylw ar hyn o bryd. At hyn, roedd posibilrwydd y byddai grantiau hwyr yn cael eu rhoi gan Lywodraeth Cymru i wella'r sefyllfa. Ymhlith y prif amrywiadau roedd gorwariant ar gyfer Lleoliadau y tu allan i'r Sir a Gwasanaethau Stryd a Chludiant mewn cysylltiad â datrys materion yn ymwneud â llifogydd.

Ar fater olrhain arbedion effeithlonrwydd arfaethedig y flwyddyn hon, disgwylid y byddai'r sgôr cyflawniad o 91% yn aros yr un fath ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar fater Cronfeydd wrth Gefn a Mantolenni, mantolen ragamcanol diwedd y flwyddyn ar gyfer y Cronfeydd wrth Gefn oedd £3.244m. Tynnwyd sylw unwaith yn rhagor at y risg sylweddol ar lefelau rhagamcanol mantolenni'r ysgolion.

Byddai dyraniad cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi rhwydweithiau TGCh ysgolion yn cael ei ddyrannu yn erbyn y gwariant presennol, gyda chais yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'r tanwariant fyddai'n deillio o hynny i gael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Ar fater y Cyfrif Refeniw Tai, byddai tanwariant rhagamcanol o £0.062m yn gadael mantolen derfynol heb ei chlustnodi o £1.385m, a oedd yn fwy na'r canllawiau a argymhellir ar wariant.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at gost ychwanegol sicrhau diogelwch y Canolfannau Ailgylchu Cartref yn dilyn achosion o fandaliaeth. Roedd yn amau a oedd y cyfleusterau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) ym Mwcle yn gweithio cyn y digwyddiadau hyn ac roedd yn bosibl bod hyn wedi cyfrannu at y broblem. Dywedodd y Prif Swyddog mai'r camerâu hyn oedd targed cyntaf fandaliaid yn aml iawn a byddai'n gofyn i'r Prif Swyddog Gwasanaethau Stryd a Chludiant am ymateb.

Gofynnodd y Cynghorydd Heesom am wybodaeth am gostau a'r amserlen ar gyfer trwsio difrod i geblau/pibell ar hyd yr A548. Cytunodd y Rheolwr Cyllid y byddai'n gofyn am ymateb gan y Prif Swyddog Gwasanaethau Stryd a Chludiant.

Cafodd argymhellion yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Jones a Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 (Mis 10), mae'r Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno adrodd amdanynt i'r Pwyllgor.

**94. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD A OEDD YN BRESENNOL**

Nid oedd aelodau'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.40am)

**…………………………**
**Cadeirydd**